

Arweinydd y Cyngor
Leader of the Council
Cyngorydd / Councillor Dyfrig Siencyn

Gofynnwch am/Ask for: **Cyng. Dyfrig Siencyn**
☎ (01286) 679666

✉ Cyngorydd.DyfrigLewisSiencyn@gwynedd.llyw.cymru

Ein Cyf / Our Ref: **DS/SEW**

Eich Cyf / Your Ref:



29/06/21

Mark Drakeford AS
Prif Weinidog Cymru,

Annwyl Brif Weinidog

Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd, Gwynedd a Mon - Adolygiad

Ysgrifennaf atoch ar ran holl aelodau Cyngor Gwynedd yn dilyn cyfarfod arbennig o'r Cyngor a drefnwyd ar gais aelodau i drafod ein hadolygiad o Gynllun Datblygu Lleol Gwynedd a Mon a hynny o ganlyniad i bryderon sylweddol ynglyn a'r argyfwng tai yn y sir. Fe fabwysiadwyd ein Cynllun Datblygu yn 2017 ac mae bwriad i gynnal adolygiad ohonno gyda'r broses i gychwyn yn ystod yr wythnosau nesaf

Dyma'r cynnig a basiwyd yn unfrydol wedi trafodaeth frwd ac angerddol:

“Bod y Cyngor hwn yn edrych ar frys ar y Cynllun Datblygu Lleol (basiwyd 28.7.2017) gyda golwg i'w adolygu a'i ddiweddarau o ran polisiau cynllunio a'r iaith Gymraeg. Byddai'n ddymunol rhoi blaenoriaeth neilltuol i hyn, heibio yr hyn a nodwyd fel yr amser monitro arferol o fewn y Cynllun ei hun, a chyflwyno cynigion sy'n cyfateb i adroddiad Dr Simon Brooks “Ail Gartrefi – Datblygu Polisiau Newydd yng Nghymru” a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru.

Yn dilyn y Pandemig a'r ffaith na fydd yna Wylfa B, disgwylir y bydd cyfarfod o'r fath yn cyfarch y newidiadau angenrheidiol sydd eu hangen i gydymffurfio â Deddf Llesiant Cymru, Cymru sydd yn fwy cyfartal a Chymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu.

Felly, yn wyneb yr argyfwng tai a gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, bod rhaid symud ar frys i adolygu'r Cynllun Datblygu Lleol; bod y broses yma'n cymryd sylw llawn o farn aelodau a'r gymuned, a bod y Cyngor yn symud ymlaen cyn gynted ag y bo'r modd i baratoi'r Adroddiad Adolygu, a chyflwyno Cytundeb Cyflawni gerbron y Cyngor. Hefyd, bod y Cyngor yn ysgrifennu at Brif Weinidog Cymru, Mark Drakeford, i bwysu am gael hawl gweithredu ar amserlen fyrrach”.

Yn ystod y cyfarfod amlygwyd y pryderon dwfn ym mhob cymuned ar draws y sir am y farchnad dai afreolus a'r sefyllfa argyfyngus sydd gennym yma yng Ngwynedd. Mae'r argyfwng tai angen ymateb brys, ac felly roedd cryn syndod o ddeall fod adolygiad o'n Cynllun Datblygu Lleol, yn mynd i gymryd tair blynedd a hanner oherwydd gofynion statudol y drefn.

Cyngorydd.DyfrigLewisSiencyn@gwynedd.llyw.cymru
☎ (01286) 679666

Swyddfa'r Cyngor
Caernarfon
Gwynedd LL55 1SH
01766 771000
www.gwynedd.llyw.cymru

Anodd yw deall pam fod angen cymaint o amser pan fo angen ymateb ar fyrder i sicrhau ein bod yn gallu darparu tai i gwrdd ac anghenion ein cymunedau. Mae hyn ar adeg pan mae newidiadau sylweddol megis y cynnydd aruthrol mewn ailgartrefi a thai haf, y newid yn sefyllfa cynllun Wylfa Newydd, gofynion Cymru'r Dyfodol (Y Cynllun Cenedlaethol) ar ben effeithiau'r pandemig.

Fe'm harchwyd i ysgrifennu atoch i ofyn a oes modd cynnal adolygiad o'r Cynllun Datblygu yn llawer cynt? Fe awgrymwyd y dylid gwneud hynny o fewn chwe mis ac yn sicr cyn etholiadau'r cynghorau sir fis Mai.

Mae gennym dim o swyddogion brwdfrydig a'n awyddus i wneud pob ymdrech i gwblhau'r adolygiad cyn gynted a phosib ond mae'n ymddangos fod y rheoliadau yn cyfyngu ar eu gallu i wneud hynny.

Mae'n amlwg fod gan y Cynllun Datblygu Lleol ran ganolog yn beth y gallwn ei wneud fel Cyngor yn natrysiad y broblem tai, ond hoffwn eich hatgoffa o'n gohebiaeth flaenorol gyda'n cynigion sydd yn nodi beth gall y Llywodraeth ei wneud, i geisio cael rheolaeth leol dros niferoedd yr ail gartrefi a thai haf.

'Rwy'n edrych ymlaen i glywed gennych i drafod mewn manylder yr argyfwng sy'n wynebu ein cymunedau ac i geisio datrysiadau ar fyrder.

Edrychaf ymlaen at eich hymateb mor fuan ag sydd modd er mwyn i mi adrodd yn ol i'm haelodau.

Yn gywir,



Y Cyng. Dyfrig Siencyn
Arweinydd Cyngor Gwynedd
Leader of Gwynedd Council